# CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Y Celfyddydau Perfformio

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Y Celfyddydau Perfformio |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno gwybodaeth a sgiliau ymarferol sector-benodol i ddysgwyr sy'n eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu brentisiaethau, gan feithrin datblygiad personol ac ymgysylltu drwy ddysgu cymhwysol. |
| Cod Cymhwyster CBAC | 5609QA |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14–16, 16–19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cymwysterau TAAU a gymeradwywyd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Chymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14-16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn unedol, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r hyblygrwydd hwn, mae'n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn y maent yn ei gyflawni drwy gydol y cwrs. Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol wedi'u cynllunio er mwyn asesu gwybodaeth sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster gan helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hyrwyddo profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Cynnwys


Crynodeb o'r asesu ..... 5
1. Cyflwyniad ..... 6
1.1. Pwrpas a nodau ..... 6
1.2. Cwricwlwm i Gymru ..... 6
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 7
1.4. Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) ..... 7
1.5. Y defnydd o iaith ..... 8
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 8
2. Unedau ..... 9
2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 9
2.3. Cynnwys ..... 10
Uned 1 Cyflwyniad i'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio ..... 11
2.4. Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ..... 19
Uned 2 Dod o hyd i waith ..... 20
2.5. Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ..... 28
Uned 3 Arddangosfa Greadigol ..... 29
2.6. Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ..... 39
3. Asesu ..... 40
3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau ..... 40
3.2. Trosolwg o'r asesu ..... 41
3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad ..... 42
3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad ..... 43
3.5. Camymddwyn ..... 44
4. Gwybodaeth dechnegol ..... 45
4.1. Cofrestriadau unedau ..... 45
4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ..... 45
4.3. Graddio ac adrodd yn ôl ..... 46
4.4. Ailsefyll asesiadau unedau ..... 46
4.5. Ailwneud y cymhwyster ..... 47
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 48
Atodiad B: Arferion gorau wrth recordio perfformiadau ..... 52
Atodiad C: Gofynion adnoddau ..... 54


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio<br>Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur neu ar sgrin<br>Cwestiynau aml-ddewis, prawf gwrthrychol ac atebion byr, gyda rhai ohonynt yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| Uned 2: Dod o Hyd i Waith<br>Asesiad di-arholiad: 4 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau wedi'u seilio ar friff gwaith y bydd CBAC yn ei osod bob blwyddyn.<br>Bydd yr asesiad ar gael drwy'r Porth. |
| Uned 3: Arddangosfa Greadigol<br>Asesiad di-arholiad: 72 awr<br>60% o'r cymhwyster<br>60 marc |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau sy'n seiliedig ar friff yr aseiniad (dewis o chwe briff).<br>Bydd yr asesiad ar gael drwy'r Porth a bydd yn aros yn sefydlog am oes y fanyleb. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r ddwy uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd Uned 1 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2028 ac yna bydd ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd Uned 2 ar gael am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2028 ac yna bydd ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd Uned 3 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2029 ac yna bydd ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Maent yn cynnig cynnwys ac asesiadau deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae cymwysterau TAAU yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant, neu fyd gwaith.

Nod y cymhwyster CBAC TAAU Y Celfyddydau Perfformio yw:

- datblygu ac arddangos sgiliau mewn gwaith ymarferol, creadigol a pherfformio
- ymgymryd yn weithredol â'r broses o astudio perfformio yn ei amrywiol ffurfiau, er mwyn datblygu'n ddysgwyr effeithiol ac annibynnol ac yn feddylwyr beirniadol ac adfyfyriol sydd â meddyliau chwilfrydig
- datblygu dealltwriaeth o sut i ddod o hyd i waith a gweithio yn y diwydiant Celfyddydau Perfformio
- deall y diwydiant Celfyddydau Perfformio fel ymarferwr ac fel aelod o gynulleidfa
- gweithio’n ddychmygus ac yn greadigol mewn cyd-destunau cydweithredol, gan gynhyrchu, datblygu a chyfleu syniadau
- adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a’i werthuso
- deall yr elfennau sydd eu hangen i greu perfformiadau ar gyfer cynulleidfa.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TAAU Y Celfyddydau Perfformio hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r cynllun hwn y mae'r egwyddorion cynnydd, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad Y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn adran 2.3; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Mae'r cymhwyster TAAU Y Celfyddydau Perfformio yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Y Celfyddydau Mynegiannol[1] gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - datblygu gwybodaeth a sgiliau artistig er mwyn dod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
  - ymateb ac adfyfyrio, fel artist a chynulleidfa
  - creu gwaith sy'n cyfuno sgiliau, gwybodaeth, ysbrydoliaeth a dychymyg.

- cefnogi egwyddorion cynnydd Y Celfyddydau Mynegiannol[2] drwy annog dysgwyr i:
  - fod yn effeithiol fel dysgwr
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth
  - dyfnhau eu dealltwriaeth o syniadau a disgyblaethau o fewn y celfyddydau perfformio
  - mireinio a meithrin eu sgiliau, gan ddatblygu eu gallu i gymhwyso mewn modd mwy soffistigedig
  - gwneud cysylltiadau a throsglwyddo eu dysgu i gyd-destunau newydd.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed. Efallai y bydd dysgwyr wedi cwblhau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) yn y pwnc cyn dechrau'r cwrs hwn, a all gefnogi eu parodrwydd a'u dilyniant ymhellach.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'n darparu sail addas ar gyfer dilyniant i astudiaethau pellach ar lefel 3, megis Tystysgrif Estynedig mewn Perfformio (Theatr Gerdd) neu Gynhyrchu Theatr, neu Ddiploma mewn Gwallt a Cholur ar gyfer y Cyfryngau, neu Ddiploma Estynedig mewn Cynhyrchu a Pherfformio Cerddoriaeth, Y Celfyddydau Perfformio, Y Celfyddydau Cynhyrchu. Hefyd, cymwysterau lefel 3 eraill megis UG neu Safon Uwch Drama a Theatr, Cerddoriaeth, Technoleg Cerddoriaeth neu Safon Uwch Dawns a phrentisiaethau yn ymwneud â chefn llwyfan, gwisgoedd, gwneud propiau neu theatr dechnegol. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Lluniwyd TAAU Y Celfyddydau Perfformio i'w chyflwyno dros gyfnod o 120–140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae maint cynnwys pob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o'r ganran ddisgwyliedig o ODA y gallai fod ei hangen ar gyfer pob uned.

| | Pwysoliad | ODA |
|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 24 |
| Uned 2 | 20% | 24 |
| Uned 3 | 60% | 72 |

[1] Y Celfyddydau Mynegiannol: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb
[2] Y Celfyddydau Mynegiannol: Egwyddorion cynnydd - Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

| **Cyfansymiau** | **100%** | **120 awr** |
|---|---|---|

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Cyfrifwyd mai 140-160 awr yw cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- rhwng 120 a 140 o oriau dysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 60 o oriau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy’r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector celfyddydau perfformio. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid y gofynion a fwriadwyd ar gyfer yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael ar www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 2. Unedau

## 2.1 Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | Mae'n nodi'r cyfraniad y mae'r uned hon yn ei wneud at radd ar gyfartaledd y cymhwyster. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu allweddol, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Testunau | Mae'n rhestru'r testunau y bydd dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'r uned. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dulliau asesu ar gyfer yr uned. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Manylion y deunyddiau, y cyfarpar, a'r cyfleusterau sydd eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu. |
| Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.<br>Ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol. |

## 2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn i ddangos dyfnder disgwyliedig y dysgu.

Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen ymwybyddiaeth gyffredinol yn unig o'r cynnwys dan sylw ar ddysgwyr, heb ddealltwriaeth fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at ddogfennau Canllawiau Addysgu am ganllawiau manylach ar ddyfnder a chwmpas.

Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r cynnwys.

Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn nodi y dylai dysgwyr ddangos mwy o ddyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys y gallu i gymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd, a dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol neu ddangos cymhwyso sgiliau ymarferol a thechnegau.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob testun, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 1 Cyflwyniad i'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r diwydiant celfyddydau perfformio yn sector eang sy'n cynnwys llawer o wahanol ffurfiau celf sy'n esblygu ac yn dod i'r amlwg yn barhaus. Mae'r uned hon yn ymwneud ag archwilio'r diwydiant fel bod gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol briodol.<br><br>Bydd yn cyflwyno dysgwyr i'r amrywiaeth o ffurfiau celf a disgyblaethau a sut gall gweithio gyda'i gilydd arwain at lwyddiant yn y diwydiant. Bydd yn edrych ar sut mae'r diwydiant yn gweithredu a sefyllfa'r diwydiant yng Nghymru. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar y gwahanol fathau o swyddi a'u rolau a'u cyfrifoldebau.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw archwilio:<br><br>• y gwahanol ffurfiau celf a disgyblaethau yn y diwydiant<br>• sut mae'r diwydiant yn gweithredu yn ymarferol<br>• tirwedd y diwydiant yng Nghymru<br>• rolau allweddol o fewn y diwydiant.<br><br>Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon wedi'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach, gyda sylfaen gadarn mewn gwybodaeth am y diwydiant, ymwybyddiaeth ymarferol, a sgiliau at y dyfodol. |
| Testunau | 1.1 Deall y diwydiant<br>1.2 Y Diwydiant yng Nghymru<br>1.3 Gweithio yn y diwydiant |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur neu ar sgrin<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Ar bapur: Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad.<br>Digidol: bydd angen dyfais ar ymgeiswyr sy'n bodloni neu'n rhagori ar y gofynion sylfaenol. Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno arholiadau ar-sgrin, gan gynnwys y gofynion sylfaenol, ar gael ar dudalen we e-Asesu CBAC. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) – Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Sgiliau Bywyd: Celf a Chrefft<br>Sgiliau Bywyd: Cerddoriaeth, Dawns a Drama<br>Sgiliau Bywyd: Gwaith Tîm<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br>Sgiliau Gwaith: Gwneud Cais am Swyddi |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Sgiliau Gwaith: Creadigrwydd Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Profiad Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru |

## Cynnwys

| 1.1 Deall y diwydiant | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Trosolwg o'r diwydiant<br>1.1.2 Ffurfiau celf a disgyblaethau'r diwydiant: perfformio<br>1.1.3 Ffurfiau celf a disgyblaethau'r diwydiant: cynhyrchu<br>1.1.4 Prosesau gweithredol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.1.1<br>Trosolwg o'r diwydiant | Dylai dysgwyr wybod y pwrpasau canlynol o ran y celfyddydau perfformio:<br><br>• mae'n cwmpasu perfformio gweithiau gwreiddiol a rhai sydd eisoes yn bodoli<br>• mae'n cyfuno mynegiant, dehongli, a chydweithio er mwyn cyfleu syniadau, straeon ac emosiynau<br>• gall addysgu, diddanu, ysbrydoli ac adlewyrchu cymdeithas a diwylliant drwy berfformiad byw<br>• mae'n dibynnu ar ymgysylltu â'r gynulleidfa.<br><br>Dylai dysgwyr wybod beth yw gwahanol ffurfiau celf y diwydiant, gan gynnwys:<br><br>• perfformio – sy'n canolbwyntio ar yr ochr greadigol ac artistig a dyma lle mae perfformwyr yn defnyddio eu cyrff, eu lleisiau, eu hofferynnau a'u hemosiynau i ddiddanu neu gyfathrebu â chynulleidfa<br>• cynhyrchu – sy'n canolbwyntio ar yr agweddau technegol, dylunio a rheoli sy'n gwneud perfformiadau yn bosibl. Mae'n cynnwys popeth y tu ôl i'r llenni sy'n cefnogi ac yn gwella gwaith y perfformwyr.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol ddisgyblaethau canlynol o fewn y ffurfiau celf hyn:<br><br>• disgyblaethau perfformio:<br>    • drama<br>    • dawns<br>    • cerddoriaeth<br>    • technoleg cerddoriaeth<br>    • theatr gorfforol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>disgyblaethau cynhyrchu:
<ul>
<li>dylunio gwisgoedd</li>
<li>dylunio goleuo</li>
<li>dylunio colur a gwallt</li>
<li>pypedwaith</li>
<li>dylunio set</li>
<li>dylunio sain</li>
<li>rheoli llwyfan.</li>
</ul>
</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod am y gwahanol bobl ganlynol y gallai perfformwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes cynhyrchu gydweithio â nhw:
<ul>
<li>cyfarwyddwr</li>
<li>coreograffydd</li>
<li>cyfarwyddwr cerdd</li>
<li>technegwyr.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o:
<ul>
<li>sefydliadau megis grwpiau celfyddydau, cymunedol, dawns, cerddoriaeth a theatr, cwmnïau cynhyrchu/teithio a ph'un a ydynt yn rhai er-elw neu'n rhai nid-er-elw</li>
<li>digwyddiadau megis cyngherddau, gwyliau, sioeau talent, theatr a theatr stryd, perfformiadau teithiol</li>
<li>lleoliadau megis arenau, neuaddau cyngerdd, mannau awyr agored, stadiymau, theatrau</li>
<li>cynulleidfaoedd megis teuluoedd, pobl ifanc.</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.1.2<br>Ffurfiau celf a disgyblaethau'r diwydiant: perfformio</td>
<td>
Dylai dysgwyr ddeall natur disgyblaethau'r ffurfiau celf perfformio canlynol:
<ul>
<li>drama</li>
<li>dawns</li>
<li>cerddoriaeth</li>
<li>technoleg cerddoriaeth</li>
<li>theatr gorfforol.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod yr arddulliau a enwir canlynol:
<ul>
<li>drama:
<ul>
<li>theatr gerdd</li>
<li>naturiolaidd</li>
<li>gwleidyddol</li>
</ul>
</li>
<li>dawns:
<ul>
<li>bale</li>
<li>clocsio</li>
<li>cyfoes</li>
</ul>
</li>
<li>cerddoriaeth:
<ul>
<li>clasurol</li>
<li>hip hop</li>
<li>pop</li>
</ul>
</li>
<li>technoleg cerddoriaeth:
<ul>
<li>cerddoriaeth electronig</li>
</ul>
</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • sain fyw<br>• cerddoriaeth a sain ar gyfer y cyfryngau<br>• theatr gorfforol:<br>  • clownio/comedi gorfforol<br>  • mygydau<br>  • adrodd straeon drwy symudiadau |
| 1.1.3<br>Ffurfiau celf a disgyblaethau'r diwydiant: cynhyrchu | Dylai dysgwyr ddeall natur disgyblaethau'r ffurfiau celf cynhyrchu canlynol:<br><br>• dylunio gwisgoedd<br>• dylunio goleuo<br>• dylunio colur a gwallt<br>• pypedwaith<br>• dylunio set<br>• dylunio sain<br>• rheoli llwyfan.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y gwahanol arddulliau hyn sy'n berthnasol i'r disgyblaethau dylunio cynhyrchiad, er enghraifft:<br><br>• dylunio gwisgoedd: hanesyddol, modern<br>• dylunio goleuo: naturiolaidd, an-naturiolaidd<br>• dylunio colur a gwallt: hanesyddol, ffantasi<br>• pypedwaith: haniaethol, naturiolaidd<br>• dylunio set: cyfansawdd, minimalaidd<br>• dylunio sain: *Foley*, wedi'i recordio.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am natur a phwysigrwydd cydweithio rhwng y disgyblaethau cynhyrchu. |
| 1.1.4<br>Prosesau gweithredol | Dylai dysgwyr ddeall yr elfennau canlynol sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad yn y maes celfyddydau perfformio:<br><br>• iechyd a diogelwch<br>• hawlfraint<br>• trwyddedu ac yswiriant<br>• marchnata a hyrwyddo<br>• cynllunio cyn-gynhyrchu<br>• gosodiad technegol.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau canlynol sy'n ymwneud â digwyddiadau yn y maes celfyddydau perfformio:<br><br>• oedran y gynulleidfa a diddordebau demograffig<br>• grantiau<br>• hunan-ariannu<br>• tocynnau/prisiau<br>• mathau o leoliadau a chapasiti seddi.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y gall cyllid yn y celfyddydau fod er-elw neu nid-er-elw a dylent fod yn ymwybodol o: |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • grantiau'r llywodraeth – cyllid gan gynghorau celfyddydau cenedlaethol neu lywodraeth leol (er enghraifft, Cyngor Celfyddydau Cymru).<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut gall safonau proffesiynol effeithio ar enw da a dibynadwyedd yn y diwydiant drwy:<br><br>• gyfathrebu effeithiol<br>• prydlondeb<br>• ansawdd y gwaith. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 1.2 Y diwydiant yng Nghymru

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
1.2.1 Rhwydwaith y celfyddydau perfformio yng Nghymru
1.2.2 Digwyddiadau celfyddydau perfformio yng Nghymru
1.2.3 Lleoliadau celfyddydau perfformio yng Nghymru

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.2.1<br>Rhwydwaith y celfyddydau perfformio yng Nghymru | Dylai dysgwyr wybod am y sefydliadau canlynol a'u cyfraniadau i rwydwaith y celfyddydau perfformio yng Nghymru:<br><br>• Cyngor Celfyddydau Cymru<br>• Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru<br>• Theatr Cymru (Theatr Genedlaethol Cymru gynt)<br>• Opera Cenedlaethol Cymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall yr heriau yn rhwydwaith y celfyddydau perfformio yng Nghymru gan gynnwys:<br><br>• datblygu cynulleidfaoedd – mae gan rai ardaloedd yng Nghymru (yn enwedig ardaloedd gwledig) gyfyngiadau o ran cynulleidfaoedd a mynediad i leoliadau.<br>• y gystadleuaeth am gynulleidfaoedd<br>• toriadau cyllid a phwysau ariannol<br>• cydbwysedd iaith – gall cynhyrchu gwaith yn Gymraeg a Saesneg fod yn gymhleth ac yn gostus.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y cyfleoedd yn rhwydwaith y celfyddydau perfformio yng Nghymru gan gynnwys:<br><br>• cydweithio creadigol<br>• ymgysylltu â'r gymuned ac addysg<br>• twf digidol a theithiol<br>• mae hunaniaeth genedlaethol gref a diwylliant dwyieithog Cymru yn creu cyfleoedd artistig unigryw. |
| 1.2.2<br>Digwyddiadau celfyddydau perfformio yng Nghymru | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r digwyddiadau mawr hyn yng Nghymru:<br><br>• Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen<br>• Eisteddfod Genedlaethol Cymru<br>• Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br><br>• diffiniad o'r digwyddiadau hyn<br>• eu pwrpas<br>• eu cefndir. |
| 1.2.3<br>Lleoliadau celfyddydau perfformio yng Nghymru | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r lleoliadau celfyddydau perfformio hyn yng Nghymru: |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth<br>• Theatr y Sherman<br>• Theatr Clwyd<br>• Canolfan Mileniwm Cymru<br>• Venue Cymru.<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br><br>• y mathau o berfformiadau/digwyddiadau y maent yn eu cynnal<br>• y mathau o gynulleidfa y maent yn eu denu. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 1.3 Gweithio yn y diwydiant | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 Rolau swyddi | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.3.1<br>Rolau swyddi | Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol rolau hyn, eu cyfrifoldebau, dilyniant gyrfa a'u gofynion o ran sgiliau:<br><br>• actor / actores<br>• dawnsiwr<br>• dylunydd gwisgoedd<br>• dylunydd goleuo<br>• dylunydd colur a gwallt<br>• cerddor<br>• technolegydd cerddoriaeth<br>• pypedwr<br>• dylunydd set<br>• dylunydd sain<br>• rheolwr llwyfan.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r rolau swyddi proffesiynol canlynol yn y maes celfyddydau perfformio a'u prif gyfrifoldebau:<br><br>• rheolwr llwyfan cynorthwyol<br>• coreograffydd<br>• cyfarwyddwr<br>• staff blaen tŷ<br>• arbenigwr drama *(dramaturg)*<br>• cynhyrchydd<br>• technegwyr. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.4. Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant celfyddydau perfformio i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes celfyddydau perfformio
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr yn y maes celfyddydau perfformio
- ymweld â digwyddiadau neu leoliadau celfyddydau perfformio lleol neu fynychu digwyddiadau'r diwydiant er mwyn deall y diwydiant celfyddydau perfformio yn uniongyrchol
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 2 Dod o hyd i waith

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ddod o hyd i waith yn y diwydiant celfyddydau perfformio ac yn archwilio pwysigrwydd repertoire â thema.<br><br>Bydd dysgwyr yn archwilio'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y diwydiant ac yna'n dysgu sut i gymhwyso'r rhain mewn ymateb i friff cyflogaeth.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw archwilio:<br>• sut i ddod o hyd i waith yn y diwydiant celfyddydau perfformio<br>• repertoire sydd eisoes yn bodoli o fewn disgyblaeth o'u dewis<br>• gwneud cais am waith drwy ymateb i friff. |
| Testunau | 2.1 Sut i ddod o hyd i waith<br>2.2 Archwilio gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli<br>2.3 Datblygu ac arddangos sgiliau perfformio<br>2.4 Datblygu ac arddangos sgiliau cynhyrchu<br><br>Mae dysgwyr ar y llwybr perfformio yn ymdrin ag adrannau 2.1, 2.2 a 2.3.<br>Mae dysgwyr ar y llwybr cynhyrchu yn ymdrin ag adrannau 2.1, 2.2 a 2.4. |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Mae angen y gofod, y cyfarpar, y deunyddiau a'r offer angenrheidiol ar ganolfannau a fydd yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â'r dasg ymarferol ar gyfer asesu. Bydd angen cyfarpar recordio addas arnynt hefyd i recordio perfformiadau. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) – Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Sgiliau Bywyd: Celf a Chrefft<br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol<br>Sgiliau Bywyd: Cerddoriaeth, Dawns a Drama<br>Sgiliau Bywyd: Gwaith Tîm<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br><br>Sgiliau Gwaith: Gwneud Cais am Swyddi<br>Sgiliau Gwaith: Creadigrwydd Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Deall y Farchnad Lafur sy'n Newid<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Profiad Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru |

Cynigir dau lwybr – perfformio (2.3) a chynhyrchu (2.4) – ac mae dewis o ddisgyblaethau o fewn y rhain. Rhaid i ddysgwyr ddewis llwybr ac un ddisgyblaeth i archwilio repertoire a dilyn hyn hyd at yr asesu.

Llwybr perfformio – dyma'r disgyblaethau y gellir dewis ohonynt:

- drama
- dawns
- cerddoriaeth
- technoleg cerddoriaeth
- theatr gorfforol.

Llwybr cynhyrchu – dyma'r disgyblaethau y gellir dewis ohonynt:

- dylunio gwisgoedd
- dylunio goleuo
- dylunio colur a gwallt
- dylunio pypedwaith
- dylunio set
- dylunio sain
- rheoli llwyfan.

DS: gall dysgwyr ddewis yr un ddisgyblaeth/llwybr, neu ddewis disgyblaethau/llwybrau gwahanol yn Uned 2 ac Uned 3.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cynnwys

| 2.1 Sut i ddod o hyd i waith | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1 Cyfleoedd cyflogaeth<br>2.1.2 Ymateb i gyfleoedd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 2.1.1<br>Cyfleoedd cyflogaeth | Dylai dysgwyr allu ymgysylltu â'r:<br>• gwahanol ffyrdd y mae'r diwydiant yn dod o hyd i weithwyr proffesiynol i weithio<br>• ffyrdd y mae'r diwydiant yn disgwyl i weithwyr proffesiynol ymateb i gyfleoedd<br>• safonau a disgwyliadau proffesiynol megis archwilio enghreifftiau o arferion da. |
| 2.1.2<br>Ymateb i gyfleoedd | Dylai dysgwyr allu dangos, ar gyfer y ddisgyblaeth o'u dewis:<br>• sut i ymateb yn briodol ac yn broffesiynol i gyfle gwaith<br>• sut i greu CV a llythyr eglurhaol ar gyfer cyfle gwaith penodol<br>• sut mae gweithwyr proffesiynol yn rhannu eu profiad a'u sgiliau drwy wahanol ddulliau megis delweddau, cyfryngau cymdeithasol, gwefannau.<br>• sgiliau hunan-hyrwyddo effeithiol<br>• dewis gwaith priodol sy'n gweddu i alw'r cyfle gwaith a chyfiawnhau eu dewis. |

| 2.2 Archwilio gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Archwilio gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli<br>2.2.2 Datblygu gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 2.2.1<br>Archwilio gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli | Dylai dysgwyr allu archwilio, ar gyfer y ddisgyblaeth o'u dewis:<br>• amrywiaeth o waith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli sy'n ymdrin â chwmpas eang lle bo'n briodol megis gwaith clasurol a chyfoes<br>• amrywiaeth o wahanol ymarferwyr, arddulliau a genres lle bo'n briodol<br>• amrywiaeth o wahanol themâu. |
| 2.2.2<br>Datblygu gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • ystyried sut i addasu/diwygio'r gwaith proffesiynol sydd eisoes yn bodoli mewn ymateb i gyfle gwaith<br>• creu darn (llwybr perfformio) neu ddylunio neu wireddu dyluniad (dylunwyr cynhyrchu) neu hwyluso perfformiad (rheoli llwyfan) mewn ymateb i ofynion cyfle gwaith penodol<br>• ymarfer a/neu baratoi gwaith/dyluniadau ar gyfer cyfle gwaith. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.3 Datblygu ac arddangos sgiliau perfformio

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau yn **un** o'r meysydd canlynol:
2.3.1 Drama
2.3.2 Dawns
2.3.3 Cerddoriaeth
2.3.4 Technoleg cerddoriaeth
2.3.5 Theatr gorfforol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.3.1<br>Drama | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau ymarfer: cynhesu, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: datblygiad cymeriad, sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngweithio (lle bo'n berthnasol), sgiliau corfforol, dealltwriaeth o arddull drwy berfformio, sgiliau lleisiol.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn, mewn ymateb i friff gwaith, drwy berfformiad. |
| 2.3.2<br>Dawns | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau ymarfer: cynhesu, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngweithio (lle bo'n berthnasol), sgiliau arddulliadol a sgiliau mynegiannol, sgiliau technegol, dealltwriaeth o arddull drwy berfformio.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn, mewn ymateb i friff gwaith, drwy berfformiad. |
| 2.3.3<br>Cerddoriaeth | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau ymarfer: cynhesu/gwirio sain, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: sgiliau cyfathrebu, sgiliau ensemble (os yw'n berthnasol), technegau mynegiannol, sgiliau technegol, dealltwriaeth o arddull drwy berfformio.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn, mewn ymateb i friff gwaith, drwy berfformiad. |
| 2.3.4<br>Technoleg cerddoriaeth | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau ymarfer: gwirio sain, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • sgiliau a thechnegau perfformio: sgiliau cyfathrebu, golygu, chwarae sain fyw yn ôl, cymysgu, creu neu ddewis sain, sgiliau technegol.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn, mewn ymateb i friff gwaith, drwy berfformiad. |
| 2.3.5<br>Theatr gorfforol | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau ymarfer: cynhesu, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: datblygiad cymeriad, sgiliau cyfathrebu, rhyngweithio (lle bo'n berthnasol), sgiliau corfforol a symud, sgiliau lleisiol.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn, mewn ymateb i friff gwaith, drwy berfformiad. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.4 Datblygu ac arddangos sgiliau cynhyrchu

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau yn **un** o'r meysydd canlynol:

2.4.1 Dylunio gwisgoedd
2.4.2 Dylunio goleuo
2.4.3 Dylunio colur a gwallt
2.4.4 Dylunio pypedwaith
2.4.5 Dylunio set
2.4.6 Dylunio sain
2.4.7 Rheoli llwyfan

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.4.1<br>Dylunio gwisgoedd | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau/gwireddiad, dewis cyfwisgoedd, lliwiau, toriadau, ffabrigau, gweadedd<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: mesur, torri patrymau, gwneud dilladau, altro.<br><br>Dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith naill ai drwy wireddu neu ddylunio. |
| 2.4.2<br>Dylunio goleuo | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniad/gwireddiad, lliwiau, tanbeidrwydd, effeithiau, trawsnewidiadau o ran goleuo<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: rigio a/neu raglennu cyfarpar, addasu ffocws, tanbeidrwydd, lliwiau, effeithiau.<br><br>Dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith naill ai drwy wireddu neu ddylunio. |
| 2.4.3<br>Dylunio colur a gwallt | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau cynhyrchu a'u troi'n ddyluniadau, dewis lliwiau, gweadedd, siapiau, cyfwisgoedd<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: coluro â cholur llwyfan, steilio gwallt a, lle bo'n berthnasol, wigiau, defnyddio colur effeithiau arbennig, a sicrhau hylendid bob amser wrth weithio.<br><br>Dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith naill ai drwy wireddu neu ddylunio. |
| 2.4.4<br>Dylunio pypedwaith | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau/ cymeriadau/gwireddiad/adrodd straeon, lliw, ymarferoldeb, maint, cymhwyso deunyddiau<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: dewis deunyddiau, dewis math priodol, braslunio, creu modelau.<br><br>Dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith naill ai drwy wireddu neu ddylunio. |
| 2.4.5<br>Dylunio set | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau/gwireddiad, dewis cefnlenni, propiau, darnau set, cynllun<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: braslunio, creu modelau, sgiliau adeiladu, sgiliau celf a dylunio.<br><br>Dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith naill ai drwy wireddu neu ddylunio. |
| 2.4.6<br>Dylunio sain | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau/gwireddiad, effeithiau sain a chiwiau cerddorol, seiniau cynefin ac anghynefin, creu naws ac awyrgylch, a seinweddau<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu technegol: creu a golygu seiniau, gosod cyfarpar, chwarae yn ôl, cymysgu.<br><br>Dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith naill ai drwy wireddu neu ddylunio. |
| 2.4.7<br>Rheoli llwyfan | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol yn effeithiol:<br><br>• sgiliau cydweithio: rheoli pobl a dirprwyo, rhoi sesiynau briffio ac adborth, cysylltu â'r tîm cynhyrchu, cynnal ymarferion<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: creu sgript promptio, olrhain propiau a setiau, rheoli ardaloedd cefn llwyfan ac ar y llwyfan, defnyddio systemau cyfathrebu.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff gwaith drwy reoli'r llwyfan mewn perfformiad. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.5. Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant celfyddydau perfformio i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes celfyddydau perfformio
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr yn y maes celfyddydau perfformio
- ymweld â digwyddiadau neu leoliadau celfyddydau perfformio lleol neu fynychu digwyddiadau'r diwydiant er mwyn deall y diwydiant celfyddydau perfformio yn uniongyrchol
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 3 Arddangosfa Greadigol

| | |
|---|---|
| ODA | 72 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar greu gwaith mewn ymateb i friff. Bydd dysgwyr yn datblygu amrywiaeth o sgiliau i'w galluogi i ddehongli gofynion briff, cynhyrchu a datblygu syniadau, gweithio gydag eraill a pharatoi gwaith ar gyfer perfformiad. Byddant hefyd yn dysgu sut i adfyfyrio ar y broses hon i'w helpu i ddatblygu sgiliau o'r fath yn y dyfodol.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw:<br><br>• archwilio creu gwaith o friff<br>• datblygu sgiliau ymarferol a/neu dechnegol<br>• datblygu sgiliau paratoi megis prosesau dylunio neu ymarfer<br>• datblygu sgiliau cydweithio a gwerthuso. |
| Testunau | 3.1 Gweithio gyda briff<br>3.2 Datblygu ac arddangos sgiliau perfformio<br>3.3 Datblygu ac arddangos sgiliau cynhyrchu<br>3.4 Sgiliau gwerthuso<br><br>Mae dysgwyr ar y llwybr perfformio yn ymdrin ag adrannau 3.1, 3.2 a 3.4.<br>Mae dysgwyr ar y llwybr cynhyrchu yn ymdrin ag adrannau 3.1, 3.3 a 3.4. |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad<br>Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC<br>60 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Mae angen y gofod, y cyfarpar, y deunyddiau a'r offer angenrheidiol ar ganolfannau a fydd yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â'r dasg ymarferol ar gyfer asesu. Bydd angen cyfarpar recordio addas arnynt hefyd i recordio perfformiadau. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) – Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Sgiliau Bywyd: Celf a Chrefft<br>Sgiliau Bywyd: Ffilm a Chyfryngau Digidol<br>Sgiliau Bywyd: Cerddoriaeth, Dawns a Drama<br>Sgiliau Bywyd: Gwaith Tîm<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br><br>Sgiliau Gwaith: Gwneud Cais am Swyddi<br>Sgiliau Gwaith: Creadigrwydd Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Deall y Farchnad Lafur sy'n Newid<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Profiad Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru |

Cynigir dau lwybr – perfformio a chynhyrchu – ac mae dewis o ddisgyblaethau o fewn y rhain. Rhaid i ddysgwyr ddewis llwybr ac un ddisgyblaeth i archwilio repertoire a dilyn hyn hyd at yr asesu.

Llwybr perfformio – dyma'r disgyblaethau y gellir dewis ohonynt:

- drama
- dawns
- cerddoriaeth
- technoleg cerddoriaeth
- theatr gorfforol.

Llwybr cynhyrchu – dyma'r disgyblaethau y gellir dewis ohonynt:

- dylunio gwisgoedd
- dylunio goleuo
- dylunio colur a gwallt
- dylunio pypedwaith
- dylunio set
- dylunio sain
- rheoli llwyfan.

DS: gall dysgwyr ddewis yr un ddisgyblaeth/llwybr, neu ddewis disgyblaethau/llwybrau gwahanol yn Uned 2 ac Uned 3.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cynnwys

### 3.1 Gweithio gyda briff

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.1.1 Dehongli elfennau allweddol briff creadigol
3.1.2 Cynhyrchu a mireinio syniadau
3.1.3 Datblygu gwaith ar gyfer perfformiad

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.1.1<br>Dehongli elfennau allweddol briff creadigol | Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn gallu:<br><br>• dilyn briff drwy ddeall ei ofynion<br>• dewis elfennau allweddol briff ac ymateb i'r rhain yn briodol<br>• ystyried unrhyw gyfyngiadau neu heriau a gyflwynir gan friff. |
| 3.1.2<br>Cynhyrchu a mireinio syniadau | Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn gallu mynd drwy broses o gynhyrchu syniadau priodol yn seiliedig ar ofynion briff a mireinio syniad ar gyfer perfformiad.<br><br>Dylai'r broses hon gynnwys:<br><br>• archwilio syniadau posibl a dewis un i'w ddatblygu<br>• defnyddio technegau creadigol i gynhyrchu syniadau priodol megis creu'n fyrfyfyr, braslunio neu lunio map meddwl<br>• addasu a mireinio eu syniad ar gyfer cynulleidfa, thema a lleoliad penodol neu leoliad addas<br>• addasu a mireinio eu syniad at bwrpas ac achlysur penodol<br>• cyflwyno syniad creadigol i eraill<br>• esbonio a chyfiawnhau syniadau<br>• rhoi a derbyn adborth adeiladol<br>• ymateb yn briodol i unrhyw adborth. |
| 3.1.3<br>Datblygu gwaith ar gyfer perfformiad | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• dysgu eu darn (llwybr perfformio) neu sicrhau eu bod yn gallu gwireddu eu dyluniad neu gyflwyno perfformiad (llwybr cynhyrchu)<br>• cymhwyso technegau ymarfer (llwybr perfformio) neu arferion dylunio/rheoli llwyfan (llwybr cynhyrchu)<br>• ymateb i adborth |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 3.2 Datblygu ac arddangos sgiliau perfformio | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau yn **un** o'r meysydd canlynol:<br>3.2.1 Drama<br>3.2.2 Dawns<br>3.2.3 Cerddoriaeth<br>3.2.4 Technoleg cerddoriaeth<br>3.2.5 Theatr gorfforol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.2.1<br>Drama | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: gweithio gyda briffiau ac ysgogiadau, datblygu syniadau, dewis a mireinio golygfeydd, strwythuro a sgriptio<br>• sgiliau cynllunio: dysgu llinellau, rheoli amser, gweithio o fewn terfyn amser<br>• sgiliau cydweithio ac ymarfer: cynhesu, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: datblygiad cymeriad, sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngweithio (lle bo'n berthnasol), sgiliau corfforol, dealltwriaeth o arddull drwy berfformio, sgiliau lleisiol.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.2.2<br>Dawns | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: gweithio gyda briffiau ac ysgogiadau, datblygu syniadau, dewis a mireinio, datblygu motiffau a strwythuro dyfeisiau<br>• sgiliau cynllunio: amserlenni ymarferion, cyfarfodydd cynhyrchu, gweithio o fewn terfyn amser<br>• sgiliau cydweithio ac ymarfer: cynhesu, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngweithio (lle bo'n berthnasol), sgiliau arddulliadol a sgiliau mynegiannol, sgiliau technegol, dealltwriaeth o arddull drwy berfformio.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.2.3<br>Cerddoriaeth | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: gweithio gyda briffiau ac ysgogiadau, datblygu syniadau cerddorol, dewis a mireinio, strwythuro a datblygu motiffau<br>• sgiliau cynllunio: amserlenni ymarferion, cyfarfodydd cynhyrchu, gweithio o fewn terfyn amser |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • sgiliau cydweithio ac ymarfer: cynhesu/gwirio sain, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: sgiliau cyfathrebu, sgiliau ensemble (os yw'n berthnasol), technegau mynegiannol, sgiliau technegol, dealltwriaeth o arddull drwy berfformio.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.2.4<br>Technoleg cerddoriaeth | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: gweithio gyda briffiau ac ysgogiadau, datblygu syniadau cerddorol, datblygu motiffau, haenu, strwythuro<br>• sgiliau cynllunio: amserlenni ymarferion, cyfarfodydd cynhyrchu, gweithio o fewn terfyn amser<br>• sgiliau cydweithio ac ymarfer: gwirio sain, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: sgiliau cyfathrebu, golygu, chwarae sain fyw yn ôl, cymysgu, creu neu ddewis sain, sgiliau technegol.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.2.5<br>Theatr gorfforol | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: gweithio gyda briffiau ac ysgogiadau, datblygu syniadau, datblygu motiffau, strwythuro<br>• sgiliau cynllunio: amserlenni ymarferion, cyfarfodydd cynhyrchu, gweithio o fewn terfyn amser<br>• sgiliau cydweithio ac ymarfer: cynhesu, rhediadau, rhoi ac ymateb i gyfarwyddyd ac adborth, gosod ac adolygu nodau<br>• sgiliau a thechnegau perfformio: datblygiad cymeriad, sgiliau cyfathrebu, rhyngweithio (lle bo'n berthnasol), sgiliau corfforol a symud, sgiliau lleisiol.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 3.3 Datblygu ac arddangos sgiliau cynhyrchu

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau yn **un** o'r meysydd canlynol:

3.3.1 Dylunio gwisgoedd
3.3.2 Dylunio goleuo
3.3.3 Dylunio colur a gwallt
3.3.4 Dylunio pypedwaith
3.3.5 Dylunio set
3.3.6 Dylunio sain
3.3.7 Rheoli llwyfan

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.3.1<br>Dylunio gwisgoedd | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau a'u gwireddu, dewis cyfwisgoedd, lliwiau, toriadau, ffabrigau, gweadedd<br>• sgiliau cynllunio: ymchwilio, deall cyd-destun arddull, braslunio, cyllidebu<br>• sgiliau cydweithio: gweithio gyda chyfarwyddwr, perfformwyr ar ddyluniadau a ffitiadau a, lle bo'n berthnasol, gweithio gyda rolau cynhyrchu eraill i sicrhau arddull gydlynol a pherfformiad llwyddiannus, rhoi ac ymateb i adborth<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: mesur, torri patrymau, gwneud dilladau, altro.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn drwy ddyluniadau wedi'u gwireddu mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.3.2<br>Dylunio goleuo | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau a'u gwireddu, lliwiau, tanbeidrwydd, effeithiau, trawsnewidiadau o ran goleuo<br>• sgiliau cynllunio: ymchwilio, deall naws ac awyrgylch, nodi anghenion o ran cyfarpar, cynllunio ciwiau<br>• sgiliau cydweithio: gweithio gyda chyfarwyddwr a pherfformwyr a, lle bo'n berthnasol, gweithio gyda rolau cynhyrchu eraill i sicrhau arddull gydlynol a pherfformiad llwyddiannus, rhoi ac ymateb i adborth<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: rigio a/neu raglennu cyfarpar, addasu ffocws, tanbeidrwydd, lliwiau, effeithiau.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn drwy ddyluniadau wedi'u gwireddu mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 3.3.3<br>Dylunio colur a gwallt | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau a'u gwireddu, dewis lliwiau, gweadedd, siapiau, cyfwisgoedd<br>• sgiliau cynllunio: ymchwilio, deall cyd-destun arddull, braslunio, arferion glanhau a storio<br>• sgiliau cydweithio: gweithio gyda chyfarwyddwr a pherfformwyr a, lle bo'n berthnasol, gweithio gyda rolau cynhyrchu eraill i sicrhau arddull gydlynol a pherfformiad llwyddiannus, rhoi ac ymateb i adborth<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: coluro â cholur llwyfan, steilio gwallt a, lle bo'n berthnasol, wigiau, defnyddio colur effeithiau arbennig, a sicrhau hylendid bob amser wrth weithio.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn drwy ddyluniadau wedi'u gwireddu mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.3.4<br>Dylunio pypedwaith | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau a/neu gymeriadau a'u gwireddu, lliw, ymarferoldeb, maint, cymhwyso deunyddiau<br>• sgiliau cynllunio: ymchwilio, deall cyd-destun arddull, rhyngweithio pypedau â set/propiau a pherfformwyr<br>• sgiliau cydweithio: gweithio gyda chyfarwyddwr a pherfformwyr a, lle bo'n berthnasol, gweithio gyda rolau cynhyrchu eraill i sicrhau arddull gydlynol a pherfformiad llwyddiannus, rhoi ac ymateb i adborth<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: dewis deunyddiau, dewis math priodol, braslunio, creu modelau.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn drwy ddyluniadau wedi'u gwireddu mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.3.5<br>Dylunio set | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau a'u gwireddu, dewis cefnlenni, propiau, darnau set, cynllun<br>• cynllunio: ymchwilio, deall cyd-destun arddull, llinell amser adeiladu set, trawsnewidiadau<br>• sgiliau cydweithio: gweithio gyda chyfarwyddwr a pherfformwyr a, lle bo'n berthnasol, gweithio gyda rolau cynhyrchu eraill i sicrhau arddull gydlynol a pherfformiad llwyddiannus, rhoi ac ymateb i adborth<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: braslunio, creu modelau, sgiliau adeiladu, sgiliau celf a dylunio. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Yna dylid arddangos y sgiliau hyn drwy ddyluniadau wedi'u gwireddu mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.3.6<br>Dylunio sain | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: dehongli syniadau a'u troi'n ddyluniadau a'u gwireddu, effeithiau sain a chiwiau cerddorol, seiniau cynefin ac anghynefin, creu naws ac awyrgylch, a seinweddau<br>• sgiliau cynllunio: ymchwilio, deall naws ac awyrgylch, nodi anghenion o ran cyfarpar, cynllunio ciwiau<br>• sgiliau cydweithio: gweithio gyda chyfarwyddwr a pherfformwyr a, lle bo'n berthnasol, gweithio gyda rolau cynhyrchu eraill i sicrhau arddull gydlynol a pherfformiad llwyddiannus, rhoi ac ymateb i adborth<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: creu a golygu seiniau, gosod cyfarpar, chwarae yn ôl, cymysgu.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn drwy ddyluniadau wedi'u gwireddu mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn. |
| 3.3.7<br>Rheoli llwyfan | Dylai dysgwyr allu arddangos eu bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol:<br><br>• sgiliau creadigol: datrys problemau, addasu cynlluniau yn greadigol<br>• sgiliau cynllunio: amserlenni ymarferion, cyfarfodydd cynhyrchu, cynllunio gwisgoedd ac agweddau technegol, asesiadau risg<br>• sgiliau cydweithio: rheoli pobl a dirprwyo, rhoi sesiynau briffio ac adborth, cysylltu â'r tîm cynhyrchu, cynnal ymarferion<br>• sgiliau a thechnegau cynhyrchu: creu sgript promptio, olrhain propiau a setiau, rheoli ardaloedd cefn llwyfan ac ar y llwyfan, defnyddio systemau cyfathrebu.<br><br>Yna dylid arddangos y sgiliau hyn, mewn ymateb i friff creadigol sy'n gofyn am ddyfeisio a pherfformio darn, drwy reoli'r llwyfan mewn perfformiad. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 3.4 Sgiliau gwerthuso

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

3.4.1 Gwerthuso ymateb i'r briff
3.4.2 Gwerthuso'r defnydd o sgiliau a thechnegau
3.4.3 Defnyddio iaith werthusol sy'n gysylltiedig â disgwyliadau'r diwydiant

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.4.1<br>Gwerthuso ymateb i'r briff | Dylai dysgwyr ddeall sut i adolygu effeithiolrwydd eu hymateb i friff.<br><br>Dylai hyn gynnwys gwerthuso:<br><br>• pa mor dda y gwnaethant ddeall a chadw at y briff<br>• pa mor dda y gwnaethant gynllunio ar gyfer y pwrpas, y gynulleidfa, y lleoliad a'r achlysur a fwriadwyd<br>• pa mor effeithiol y gwnaethant gynnal y broses o gynhyrchu a mireinio syniadau<br>• pa mor greadigol a llwyddiannus oedd y canlyniad<br>• pa mor dda y gwnaeth y gwaith fodloni gofynion y briff. |
| 3.4.2<br>Gwerthuso'r defnydd o sgiliau a thechnegau | Dylai dysgwyr ddeall sut i adolygu eu cryfderau a nodi meysydd i'w gwella o ran eu sgiliau a'u technegau.<br><br>Dylai hyn gynnwys gwerthuso:<br><br>• y ffordd y maent yn cymhwyso eu sgiliau a'u technegau megis pam dewiswyd technegau, sgiliau neu ddeunyddiau penodol, a sut gwnaeth y rhain ddylanwadu ar y canlyniad<br>• cryfderau a gwendidau<br>• sut gellid datrys unrhyw broblemau neu faterion technegol yn y dyfodol<br>• tynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau, camau na chafodd eu cwblhau neu bwyntiau lle nad oedd y gwaith yn bodloni'r briff<br>• awgrymu newidiadau neu nodau ymarferol a chyraeddadwy ar gyfer y dyfodol, megis mireinio techneg neu wella trefnau paratoi<br>• ystyried effaith y gwelliannau hyn ar berfformiad yn y dyfodol yng nghyd-destunau hyfforddiant, lleoliad gwaith, neu gyflogaeth. |
| 3.4.3<br>Defnyddio iaith werthusol sy'n gysylltiedig â disgwyliadau'r diwydiant | Dylai dysgwyr ddeall sut i gyfathrebu'n glir gan ddefnyddio terminoleg briodol y celfyddydau perfformio.<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br><br>• disgrifio ansawdd eu gwaith gan ddefnyddio termau pwnc-benodol cywir<br>• esbonio pam dewiswyd syniadau/technegau/dyluniadau penodol, a sut gwnaeth y rhain ddylanwadu ar y canlyniad |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • cyfeirio'n uniongyrchol at safonau'r diwydiant, megis iechyd a diogelwch. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.6. Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant celfyddydau perfformio i gael mewnwelediad uniongyrchol i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes celfyddydau perfformio
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr yn y maes celfyddydau perfformio
- ymweld â digwyddiadau neu leoliadau celfyddydau perfformio lleol neu fynychu digwyddiadau'r diwydiant er mwyn deall y diwydiant celfyddydau perfformio yn uniongyrchol
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 3. Asesu

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r cymhwyster hwn wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

### AA1
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant celfyddydau perfformio.

### AA2
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant celfyddydau perfformio.

### AA3
Gwerthuso sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant celfyddydau perfformio.

### AA4
Arddangos a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant celfyddydau perfformio drwy:

- allu cymryd rhan mewn hunan-hyrwyddo
- allu perfformio, dylunio/gwireddu neu reoli perfformiad yng nghyd-destun repertoire neu waith gwreiddiol a grëwyd.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | - | - | 20% |
| Uned 2 | - | - | - | 20% | 20% |
| Uned 3 | - | - | 20% | 40% | 60% |
| Pwysoliad cyffredinol | **10%** | **10%** | **20%** | **60%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 3.2. Trosolwg o'r asesu

### Uned 1

Asesir yr uned hon drwy brawf sector sy’n cael ei osod a’i farcio’n allanol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau prawf sector byr, un awr, sydd wedi'i gynllunio i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol (AA1 ac AA2 yn unig). Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer prawf ar bapur neu brawf ar sgrin.

Bydd y prawf yn cael ei farcio allan o 50 ac mae ganddo ddwy adran gwerth 25 marc yr un. Mae Adran A yn cwmpasu AA1 a bydd yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, megis cwestiynau aml-ddewis, ymateb lluosog, llenwi'r bwlch, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth. Mae Adran B yn cwmpasu AA2 ac yn cynnwys cwestiynau ateb byr, y gallai rhai ohonynt fod yn seiliedig ar senarios byr o'r diwydiant.

Rhaid i'r prawf gael ei gymryd o dan amodau arholiad a oruchwylir yn unol â gofynion CGC (gweler http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations).

Bydd yr asesiad cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2028. Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer fersiwn copi caled o'r prawf neu fersiwn ar sgrin.

Mae'r prawf hwn yn cyfrannu 20**%** o radd gyffredinol y cymhwyster ac mae'n cael ei osod a'i farcio'n allanol gan CBAC.

CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r prawf.

### Uned 2

Asesir yr uned hon drwy asesiad di-arholiad sy’n cael ei osod a’i farcio’n allanol. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff gwaith sy'n cael ei osod yn allanol. Bydd y briff gwaith yn gosod y cyd-destun ac yn cynnwys set o dasgau sy'n caniatáu i ddysgwyr gymhwyso'r sgiliau a gafwyd o'r uned. Bydd y briff gwaith yn canolbwyntio ar gyfle gwaith penodol a fydd yn cynnwys gwybodaeth allweddol i ddarparu cyd-destun i ddysgwyr er mwyn iddynt ymateb iddi o ran gwneud cais am y swydd.

Bydd y briff gwaith yn cael ei ryddhau drwy'r Porth yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w ddefnyddio yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd y briff gwaith yn newid bob blwyddyn. Ni ddylai dysgwyr gael mynediad i'r aseiniad na'r tasgau cysylltiedig tan ddechrau'r asesiad. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu at 20% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 4 awr i'w gwblhau. Nid yw'r amser asesu hwn o 4 awr yn cynnwys unrhyw amser ymchwil, cynllunio nac ymarfer. Caniateir amser i ddysgwyr ddarllen y briff gwaith a'r tasgau cyn i'r amser asesu ddechrau a gellir trefnu dwy awr arall ar gyfer gwaith ymchwil cyn cwblhau'r tasgau asesu. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 50 marc.

Rhaid cyflwyno rhan ysgrifenedig yr asesiad yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio neu wedi'u cwblhau'n ddigidol. Rhaid recordio rhan berfformio'r asesiad a'i hanfon fel ffeil ddigidol.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

### Uned 3

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol. Mae ganddynt ddewis o chwe briff sy'n cynrychioli cyfle perfformio/dylunio gyda chynulleidfa, thema a lleoliad penodol. Hefyd, mae gan bob briff dri man cychwyn gweledol y gellir eu defnyddio i gynhyrchu syniadau. Byddant yn arddangos eu sgiliau mewn ymateb i un o'r briffiau hyn.

Bydd y briffiau'n cael eu rhyddhau drwy'r Porth ar ddechrau mis Medi yn y flwyddyn addysgu gyntaf ac ni fwriedir iddynt newid dros oes y cymhwyster. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ei bod yn defnyddio fersiwn gyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar y Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu at 60% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 12 awr i'w gwblhau. Nid yw'r amser asesu hwn o 12 awr yn cynnwys unrhyw amser ymchwil, cynllunio nac ymarfer. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 60 marc.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir ar gyfer cymedroli allanol naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, wedi'u cwblhau'n electronig neu wedi'u cwblhau fel ymateb sain neu glyweledol. Rhaid recordio rhan berfformio'r asesiad a'i hanfon fel ffeil ddigidol.

## 3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at yr egwyddorion a nodir yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol)*. Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

### Gosod Tasgau

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

### Gwneud Tasgau

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan ddau gam:

- y cam ymchwil
- cam yr Asesiad Di-arholiad.

Efallai y gofynnir i ddysgwyr gynnal ymchwil fel rhan o'r cam ymchwil, gellir dod o hyd i wybodaeth am y cam ymchwil gan gynnwys dull ymchwil a chyfeirio, yn y pecyn asesu.

Yn ystod cam yr asesiad di-arholiad gellir dod o hyd i wybodaeth am yr amodau asesu, wedi'u categoreiddio fel uchel, canolig ac isel yn y pecyn asesu. Hefyd, gellir dod i hyd i wybodaeth am adnoddau, wedi'u categoreiddio fel dim, penodol, ac wedi'u caniatáu yn y pecyn asesu.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Mae rhagor o wybodaeth am y cam ymchwil a cham yr asesiad di-arholiad, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) ar gael yn y dogfennau CBAC canlynol, *Cynnal Asesiadau Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 – Canllaw i Athrawon* a *Cynnal Asesiadau Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 – Canllaw i Ymgeiswyr.*

Mae ystyriaethau eraill wrth wneud tasgau, gan gynnwys:

- amser: mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael; rhoddir amser awgrymedig ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol
- goruchwylio a dilysu: mae'r pecyn asesu yn nodi'r gofynion goruchwylio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd dysgwyr yn cael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

### Marcio Tasgau

Ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a roddir i ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr i ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

## 3.5. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TAAU Y Celfyddydau Perfformio.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 4. Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestriadau unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd Uned 1 ar gael ym mis Ionawr 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny).

Bydd Uned 2 ar gael ym mis Mehefin 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny).

Bydd Uned 3 ar gael ym mis Ionawr 2029 (ac ym mhob cyfres mis Ionawr a mis Mehefin wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Prawf sector | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad allanol | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Uned 3 | Asesiad di-arholiad | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod Cyfnewid | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 4.3. Graddio ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TAAU a'r unedau y maent yn eu cynnwys yn cael eu hadrodd ar raddfa chwe phwynt: Lefel 2 Rhagoriaeth* (L2RH*) Lefel 2 Rhagoriaeth (L2RH), Lefel 2 Teilyngdod (L2T), Lefel 2 Llwyddiant (L2LL), Lefel 1 Teilyngdod (L1T), Lefel 1 Llwyddiant (L1LL).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maent yn cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 2 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 3 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 300 | 270 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau unedau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddynt ailwneud yr asesiad.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) am y pedwerydd tro neu asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar bob asesiad wedi'i farcio gan CBAC a hyd at ddau gynnig ar bob asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3. 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.2.1 | 3.1.1 |
| Cynaliadwyedd | 1.1.1, 1.1.3, | - | - |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | - | 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Addysg Hawliau Dynol | - | - | - |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.1.1, 3.1.2, 3.1.3, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.1.1, 3.1.2, 3.1.3, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darllen | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Siarad | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.1.1, 3.1.2, 3.1.3, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7, 3.4.1, 3.4.2, 3.4.3 |
| Ysgrifennu | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7, 3.4.1, 3.4.2, 3.4.3 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | 1.1.4, 1.2.1 | 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.3.1, 3.3.2, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | - | - | - |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | - | 2.4.1, 2.4.2, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, | 3.3.1, 3.3.2, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | - | - | - |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | 1.1.1, 1.1.2. 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3 | 2.1.2, 2.2.1 | - |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.2.1, | 3.1.1, 3.1.2 |
| Cynhyrchu | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, 2.4.7 | 3.1.1, 3.1.2, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7, 3.4.1, 3.4.2, 3.4.3 |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.1.4, 1.2.1, 1.2.3 | - | - |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, 2.4.7 | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.3, 1.3.2 | 2.1.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, 2.4.7 | 3.1.1, 3.1.2, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7, 3.4.1, 3.4.2, 3.4.3 |
| Cynllunio a Threfnu | 1.1.4, 1.2.1 | 2.1.2, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, 2.4.7 | 3.1.2, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, 3.3.6, 3.3.7 |
| Effeithiolrwydd Personol | - | 2.1.2, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.3.4, 2.3.5, 2.4.1, | 3.1.2, 3.1.3, 3.2.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.4, 3.2.5, 3.3.1, 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4, 3.3.5, |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.4.5, 2.4.6, 2.4.7 | 3.3.6, 3.3.7, 3.4.1, 3.4.2, 3.4.3 |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Atodiad B: Arferion gorau wrth recordio perfformiadau

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i Uned 2 ac Uned 3. Mae angen perfformiadau wedi'u recordio ar gyfer asesu ac mae'r perfformiadau, a'r recordiadau o'r rhain, at bwrpasau arholi yn unig.

1. Rhaid i bob recordiad fod yn gyflawn a heb ei olygu.
- Rhaid i'r camera gael ei leoli i sicrhau bod y recordiad dirwystr, gorau posibl yn cael ei wneud o'r perfformiad, fel y byddai'n cael ei weld gan yr asesydd. Caniateir i chi ddefnyddio tremio (*panning*) a chwyddo i mewn/allan.

2. Dylai pob dysgwr gyflwyno eu hunain (dylai perfformwyr fod mewn gwisgoedd) ar ddechrau pob recordiad o berfformiad. Dylent nodi:
   - eu henw a'u rhif ymgeisydd
   - manylion byr y rôl gynhyrchu neu berfformio.

Cofiwch fod dysgwyr yn cael eu hasesu fel unigolion felly mae'n bwysig gallu eu hadnabod yn unigol drwy gydol pob perfformiad a asesir.

DS: Ar gyfer Uned 2 sy'n cynnwys defnyddio repertoire sydd eisoes yn bodoli, rhaid i unrhyw berfformiadau neu recordiadau o berfformiadau a wneir gan ganolfannau y tu allan i gyd-destun yr uned hon ofyn am ganiatâd hawlfraint ar gyfer gweithiau mewn hawlfraint.

## Canllawiau cyn yr asesiad

**Gwirio cyfarpar recordio**

- Gwiriwch fod digon o le ar gardiau cof ar gyfer pob recordiad.
- Gwiriwch fod batri'r camera wedi'i wefru, a bod gwifren bŵer wedi'i chysylltu neu ar gael.
- Gwiriwch fod gan y camera sy'n cael ei ddefnyddio osodiadau priodol ar gyfer addasu lefelau sain – yn enwedig os yw'r camera i gael ei leoli gryn bellter oddi wrth ddysgwyr.
- Gwiriwch fod y camera yn gallu recordio defnydd y dysgwr o ofod yn effeithiol.
- Recordiwch ran fach o berfformiad (ymarfer gwisgoedd efallai) gan ddefnyddio'r union gamera fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer recordio'r asesiad – gwiriwch fod:
   - y signal sain wedi'i recordio, a bod modd gweld dysgwyr yn ddirwystr a'u clywed yn glir
   - y llun a recordiwyd yn ddigon clir i adnabod dysgwyr unigol
   - os gwelir unrhyw broblemau, bod lleoliad y camera a/neu'r lefelau recordio wedi'u haddasu er mwyn bod yn barod ar gyfer recordio'r asesiad.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

**Paratoadau adnabod dysgwyr**

- Cynlluniwch ar gyfer adnabod yn effeithiol, er enghraifft:
    - sicrhau nad yw dysgwyr yn gwisgo gwisgoedd rhy debyg, er enghraifft, pawb yn gwisgo du, gan nad yw hyn yn helpu'r broses asesu
    - paratoi taflenni A4 yn dangos enwau'r dysgwyr a'u rhif ymgeisydd mewn ffont mawr iddynt eu dal at y camera fel rhan o'u cyflwyniad
- darparu ffotograffau grŵp neu saethiad statig hyd llawn o ddysgwr mewn gwisg
- Ar gyfer y cyflwyniadau – gwnewch yn siŵr bod pob dysgwr yn cyflwyno eu hunain gan ddefnyddio llais y gellir ei glywed, ar gyflymder clir, gan nodi eu henw, eu rhif ymgeisydd a'u rôl(au). Dylai perfformwyr ddisgrifio a/neu ddangos unrhyw newid gwisgoedd.
- Rhowch gyfle i ddysgwyr ymarfer eu cyflwyniadau clir.

## Ar ddechrau'r asesiad

- Rhowch y camera mewn safle effeithiol.
- Rhaid i'r recordiadau ddechrau gyda chyflwyniadau'r dysgwyr, wedi'u recordio mewn saethiad hyd llawn – yn achos perfformwyr, dylid eu recordio fel y maent yn ymddangos yn y perfformiad.
- Recordiwch bob perfformiad – dylai'r perfformiad ar gyfer y dysgwr/grŵp penodol hwnnw ddilyn y cyflwyniadau.

## Yn ystod y perfformiad

- Gwiriwch fod y recordiad yn digwydd a bod dysgwyr yn gwbl weladwy ar y sgrin.
- Gwiriwch y pŵer/batri/cof sydd ar gael yn ôl yr angen rhwng y perfformiadau.

## Ar ôl y perfformiad

- Gwiriwch y recordiadau, gan sicrhau bod pob perfformiad wedi'i recordio'n effeithiol.
- Sicrhewch eich bod yn gwneud copi wrth gefn o'r holl recordiadau ac yn eu trosglwyddo i'r fformat priodol ar gyfer eu hasesu.
- Dylid cadw'r recordiadau gyda rhif y ganolfan, teitl y cymhwyster a'r rhif cydran perthnasol.
- Sicrhewch fod y recordiadau yn cael eu cadw'n ddiogel a bod y copïau wrth gefn yn cael eu cadw'n ddiogel hyd nes bod unrhyw adolygiadau o farcio a chymedroli (RoMM) wedi digwydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Atodiad C: Gofynion adnoddau

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gofod perfformio addas ar gael i ddysgwyr, gyda digon o le i berfformwyr, cynulleidfa a thechnegwyr (os yw hynny'n berthnasol).

Nid oes disgwyl i ddysgwyr sy'n dilyn llwybr perfformio mewn uned gynnwys agweddau technegol llawn megis gwisgoedd, goleuadau neu lwyfannu yn eu gwaith.

Dylai asesiadau risg gael eu cwblhau gan y ganolfan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau iechyd a diogelwch.

Yn ogystal â gofod perfformio addas, bydd angen i ddysgwyr sy'n dilyn llwybr cynhyrchu gael mynediad at yr adnoddau isod.

| Disgyblaeth | Gofynion adnoddau |
|---|---|
| Dylunio gwisgoedd | Dylai dysgwyr gael mynediad at amrywiaeth addas o ddeunyddiau adeiladu gan gynnwys:<br><br>• ffabrigau<br>• eitemau dillad sydd eisoes yn bodoli (y gallant eu haddasu os oes angen)<br>• edafedd.<br><br>Dylai dysgwyr gael mynediad at y cyfarpar sydd ei angen i weithgynhyrchu'r wisg os oes angen, er enghraifft:<br><br>• gynnau glud<br>• *mannequins*<br>• gwasg argraffu<br>• peiriannau gwnïo. |
| Dylunio goleuo | Dylai dysgwyr gael mynediad at:<br><br>• wahanol fathau o lusernau, er enghraifft, *Fresnel,* golau cylch<br>• barrau neu standiau goleuo gyda bariau T<br>• consol goleuo, naill ai â llaw neu raglenadwy. |
| Dylunio colur a gwallt | Dylai dysgwyr gael mynediad at amrywiaeth addas o ddeunyddiau, er enghraifft:<br><br>• brwshys/taenwyr<br>• olwyn cleisiau<br>• colur llygaid<br>• aroleuwyr<br>• latecs hylif<br>• colur sylfaen ar gyfer y llwyfan. |
| Pypedwaith | Dylai dysgwyr gael mynediad at amrywiaeth addas o ddeunyddiau adeiladu.<br><br>Gallai deunyddiau adeiladu ddod o eitemau sydd wedi'u haddasu neu y gellid eu llogi neu eu prynu fel sy'n briodol i'r dyluniadau. |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| Disgyblaeth | Gofynion adnoddau |
|---|---|
| Dylunio set | Dylai dysgwyr gael mynediad at amrywiaeth addas o ddeunyddiau adeiladu.<br>Gallai deunyddiau set ac adeiladu ddod o eitemau sydd wedi'u haddasu neu y gellid eu llogi neu eu prynu fel sy'n briodol i'r dyluniadau. |
| Dylunio sain | Dylai dysgwyr gael mynediad at:<br><br>• ffynonellau sain sydd wedi'u recordio ymlaen llaw<br>• gwahanol fathau o feicroffonau<br>• dyfeisiau prosesu sain<br>• system atgynhyrchu sain. |
| Rheoli llwyfan | Dylai dysgwyr gael mynediad at ddeunyddiau addas ar gyfer cynnal ymarfer, er enghraifft:<br><br>• tâp masgio<br>• deunyddiau i greu'r copi prompt<br>• propiau<br>• gofod ymarfer.<br><br>Dylai dysgwyr gael mynediad at ddeunyddiau addas ar gyfer cynnal perfformiad, er enghraifft:<br><br>• gofod perfformio pwrpasol<br>• system gyfathrebu. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

wjec
cbac

FOR CENTRES IN WALES:

www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000